

Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Caerdydd

Adroddiad Blynyddol ar Adolygu Dyluniadau 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /This document is available in English

- Mae'r grŵp yn cynnwys y Tîm Creu Lleoedd a Swyddogion Rheoli Datblygu sy'n prosesu ceisiadau cynllunio perthnasol.
- Cyfarfu'r grŵp Adolygu Dyluniadau 35 o weithiau yn 2022.
- Mae'r grŵp yn adolygu ansawdd dyluniadau datblygiadau yn erbyn polisiau dylunio mewn cynlluniau datblygu lleol perthnasol, y canllaw cynllunio atodol mabwysiedig a hefyd gyngor arall, gan gynnwys Nodyn Cyngor Technegol Rhif 12 - Dylunio Llywodraeth Cymru.
- Mae'r broses fwyaf buddiol o adolygu yn dechrau ar gam cyn gwneud cais, fel arfer gyda chynlluniau cysyniadol bras, sy'n galluogi trafodaeth agored a chadarnhaol am strwythur, graddfa, a chymeriad unrhyw ddyluniad sy'n dod i'r amlwg ac a all symud ymlaen yn gyflym i ganiatâd manwl. Nod y broses yw helpu i lywio ffurf a chymeriad datblygiadau newydd yng Nghaerdydd mewn modd cadarnhaol er mwyn sicrhau gwelliannau i ddyluniadau a helpu ymgeiswyr i gael caniatâd ar gyfer datblygu yn rhwydd.
- Cofnodir y drafodaeth a rhoddir sylwadau i ymgeiswyr pan fo angen gwneud adolygiadau.
- Trafodwyd 77 o gynlluniau yn y cyfarfod yn 2022, gan gynnwys:

East Bay Close (22/01404/MJR):

Cais cynllunio ar gyfer adeilad fflatiau preswyl ar safle gyda chaniatâd ar gyfer adeilad preswyl i fyfyrwyr. Gofynnwyd yn y cyfarfod a ddylid defnyddio'r safle hwn ar gyfer llety i deuluoedd gan ei fod wedi'i amgylchu gan y rheilffordd a'r drosffordd. Gofynnwyd am dystiolaeth o gyfleusterau cymdogaeth o fewn pellter cerdded. Addaswyd y cynllun i wella amodau golau a'r dirwedd breswyl, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer chwarae actif. Yn gyffredinol, credwyd bod yr adeilad yn ddeniadol o ran ei weddlun.



East Bay Close, Rutter Architects

Gwesty Moxy, (22/00378/MJR):

Yng nghanol lleoliad preswyl, ystyriwyd bod y gwesty 7 llawr yn eithaf gormesol. Nid oedd y weddlun yn arbennig o ddiddorol, ond bydd ychydig o olygfeydd hir o'r adeilad yn y stryd gul iawn sy'n cael ei chreu gan ddatblygiad cyfagos. Mae gan y llawr gwaelod ffryntiad gweithredol.



Gwesty Moxy Cumming and Co Architects

**Heol y Tollty, Stryd Bute
(22/01162/MNR**

Ailddatblygu'r adeilad rhestredig yn 7 fflat, gan gynnwys estyniad to newydd. Er y croesawyd aildddefnyddio'r adeilad, ystyriwyd bod y cynnig yn annerbyniol i ddechrau oherwydd amlygrwydd yr estyniad to yn y strydlun.



Heol y Tollty, Stryd Bute Lawray Architects

**51-65 Heol Ddwyreiniol y Bontfaen a 2-8 Heol y Gadeirlan Isaf
(22/02901/FUL):**

Adolygwyd iteriadau meddwl gwahanol ar gyfer y safle hwn, gan ddod â graddfa gychwynnol o 11 llawr i lawr i rywbeth a oedd yn ffithio'n fwy cyfforddus â'r cyd-destun preswyl tynn. Disodlwyd rhywfaint o naïfrwydd cychwynnol y darluniau gwreiddiol gydag amrywiad mwy cymhleth a diddorol o ran graddfa a ffurf to, gan awgrymu mewn plotiau ar wahân, er gwaethaf graddfa gyffredinol y prosiect.



51-56 Heol Ddwyreiniol y Bont faen a 2 - 8 Heol y Gadeirlan Isaf Benham Architects

21 Llandennis (22/00482/MNR):

Roedd y cynnig ar safle cynllun a wrthodwyd yn flaenorol, ac ar gyfer cartref cyfoes diddorol mewn ardal gymharol draddodiadol o'r ddinas. Croesawom y dull cyfoes gofalus ond gofynnodd rhai am farn y cartrefi cyfagos. Gwnaethom fodelu'r tŷ wedyn i farnu ei fâs a'i ffurf, ac awgrymodd rhai y dylem gefnogi pensaernïaeth gyfoes mewn lleoliad o'r fath.



21 Heol Llandennis Sunder Architects

Y Tu Cefn i 14 Sgwâr y Frenhines Anne (21/02922/MNR)

Ystyriwyd bod y cynnig ar gyfer adeilad fflatiau pedwar llawr swmpus a diflas o fewn ardal gadwraeth Sgwâr y Frenhines Anne yn ddyluniad gwael heb ystyried yn fawr rinweddau'r cyd-destun ehangach.



Sgwâr y Frenhines Anne Hafren Designs

Hen Safle Gwesty Duke of Clarence, Clive Road, (21/02968/MJR):

Roedd y cynnig, ar safle hen dafarn, ychydig yn is o ran uchder na chynllun a gymeradwywyd yn flaenorol, ond gydag ôl troed ehangach gan achosi ychydig o faterion amwynder o ran effeithiau ar gymdogion. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod dyluniad y ffasadau yn ddeniadol, ac yn welliant ar y dyluniad blaenorol.



FHen Safle Gwesty Duke of Clarence, Clive Road Chamberlain, Moss, King Architects

365 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen (22/01619/MJR):

Y trydydd ymgais i ddod o hyd i ateb derbyniol ar gyfer datblygu'r safle, achosodd y dyluniad ychydig o faterion amwynder o ran ei effaith ar gymdogion agos.



365 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen C2J Architects

Heol y Sanatoriwm (21/02861/MJR)

Mae'r cynllun yn ffurfio ail gam datblygiad ar safleoedd cyfagos gan gymdeithas dai. Cafodd y cynllun groeso ar y cyfan gyda rhai syniadau manwl wedi'u hawgrymu i wella cyfoeth y cynllun.



Cartrefi newydd ar hen safle Lionite Miele ar Heol y Sanatoriwm
Roberts Limbrick Architects

Y Brodordy, Maes y Brodyr Llwydion

Trafodaethau cyn gwneud cais ar gyfer adeilad tal gerllaw Tŵr y Ddinas ac yn wynebu Maes y Brodyr Llwydion a Heol y Brodyr Llwydion. Trafodwyd yn y cyfarfod effaith bosibl y cynnig ar olygfeydd treftadaeth allweddol a myfyriwyd yn y cyfarfod hefyd ar effeithiau amwynder y datblygiad ar bobl sy'n byw ar loriau is.



Cynnig Y Brodordy ym model canol dinas Caerdydd a'r Bae

Knox Court (22/02604/FUL)

Mae'r cynnig yn cynnwys trosi adeilad swyddfa gwreiddiol yn ddatblygiad byw a rennir. Mae'r cynnig yn cynnwys ychwanegu lloriau i'r adeilad gwreiddiol nad oedd unrhyw un yn poeni amdano. Roedd y cynllun gwreiddiol a adolygwyd yn y cyfarfod yn cynnwys lefel isel o le byw cymunedol.



Cyd-fyw Knox Court Expedite Design Services

Teras Moira (22/02940/FUL)

Mae'r cynllun yn ailddatblygu'r adeiladau y tu ôl i'r ffasâd rhestredig yn gynhwysfawr i ffurfio mannau masnachol newydd ar y llawr gwaelod, a fflatiau uwchben y gellir eu cyrraedd gan ddefnyddio dec yn y cefn. Mae'r cynllun yn cynnwys llys bwyd yn ei ganol a gardd wedi'i dylunio'n gynhwysfawr.

Trafodwyd mynediad i'r fflatiau ac ystyriwyd effeithiau amwynder nodweddiadol y prosiect.



Teras Moira Powell Dobson Architects

Rompney Castle, Tredelerch (22/00094/MJR)

Y cynnig yw dymchwel y dafarn ac ailddatblygu'r safle gyda siop newydd ac adeilad fflatiau trwchus yng nghanol Tredelerch. Nodom y ffaith amlwg nad yw'r cynllun yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal faestrefol ehangach a hefyd ei fod yn achosi effeithiau amwynder difrifol ar fyngalos cyfagos. Nodom hefyd ddiffyg lle amwynder ar gyfer preswylwyr y dyfodol.



Rompney Castle Sunder Architects

Cam 2, Plot 1, Y Cei Canolog (21/02883/MJR)

Datblygiad â 400 o unedau preswyl, manau llawr gwaelod masnachol a phont droed newydd yn ail gam y datblygiad cynhwysfawr hwn. Trafodwyd yn y cyfarfod, ymhlith pethau eraill, natur ddangosol yr uwchgynllun ac effeithiau cyfunol y raddfa hon o ddatblygu a chynlluniau llawr y fflatiau ar gymeriad y ddinas, adeilad a simnai'r bragdy a gedwir ac amwynder preswylwyr y dyfodol. Ystyriwyd bod y gymysgedd o fathau o fflatiau yn gyfyngedig. Gwnaethom ofyn am barhad y llwybrau beicio i'r bont, a hefyd am ddiogelwch canfyddedig y llwybr glan yr afon sy'n cynnwys manau cuddio posibl. Ni fydd llawer o'r fflatiau yn cael golau haul uniongyrchol. Nid oes digon o olau yn y creiddiau canolog na'r ardaloedd cylchrediad ac nid oes ganddynt fannau cymdeithasol. Nodom y driniaeth ffasâd gyffredin i adeiladau eraill yn y ddinas. Ystyriwyd bod triniaeth gyffredinol y lloriau gwaelod yn llwyddiannus gyda ffryntiadau masnachol gweithredol, podiwm amlwg a cholonâd braf o'r orsaf.



Cam 2, Plotiau 1 a 2 Y Cei Canolog Rio Architects

Hen Safle Hostel Ieuentid, Heol Wedal 22/00820/MJR

Cynnig i ailddatblygu safle'r hen hostel ieuentid gyda fflatiau. Mae'r cynllun yn effeithio ar Ardal Gadwraeth Parc y Rhath. Trafodom golli coed ar ymyl yr A48 a graddfa gyffredinol y datblygiad a allai ymddangos yn amlwg mewn golygfeydd allweddol, er gwaethaf agoswydd y rheilffordd a gorsaf bosibl yn y dyfodol. Trafodom hefyd y màs, y dyluniadau ffasâdau a'r materoldeb cyffredinol mewn lleoliad sensitif.



Hen Safle Hostel Ieuentid Spring Architects

Canolfan Ganser Felindre (22/02231/RES)

Trafodwyd yn y cyfarfod y broses a arweiniodd at y dyluniad hwn yr oedd aelodau'r tîm wedi'i llywio. Trafodwyd rhinweddau amrywiol y dyluniad. Yn gyffredinol, y farn oedd bod yr adeilad wedi'i ddylunio'n dda yn ei leoliad, os gellir datrys materion mynediad yn dda. Mae'n ymddangos bod y raddfa, y màs, triniaethau'r gweddau, y materoldeb a dyluniad y dirwedd i gyd yn ddiddorol, yn arloesol ac wedi'u dylunio'n dda.



Ysbyty Gofal Canser Felindre White Arkitekter

Gerddi Stryd Masnach (22/00415/ MJR)

Trafodwyd y broses a arweiniodd at y cyflwyniad hwn, gan gynnwys cyn-gytundebau yn ymwneud â materion graddfa a màs. Ar yr adeg hon, gofynnem am ansawdd y cyflwyniad a oedd yn cynnwys lluniau CGI yn unig. Nodom sut y cafodd y màs ei addasu i gynnal lefel y datblygiad ond heb ymdeimlad clir o effaith o'r raddfa hon ar amwynder preswylwyr nac ar ansawdd amgylchedd stryd yn y dyfodol a fyddai'n enfawr pe bai safleoedd cyfagos yn cael eu datblygu i raddfa debyg.



Gerddi Stryd Masnach Holder Mathias Architects

Mae'r broses adolygu dyluniadau wedi darparu sylwadau ymatebol ar ddyluniadau'r cynigion ar y camau cyn gwneud cais a gwneud cais i helpu i lywio ffurf a chymeriad datblygiadau newydd yng Nghaerdydd mewn ffordd gadarnhaol, er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr i gael caniatâd datblygu. Mae'r broses wedi darparu adolygiadau o gynlluniau yn gyson er mwyn cyflawni gwelliannau i ystod eang o faterion dylunio maestrefol, pensaernïol, tirwedd a pheirianeg.

Caiff cyngor ar yr hyn sy'n ddyluniad da ac yn ddyluniad gwael mewn canllawiau polisi dylunio cenedlaethol, Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd a hefyd yng nghanllaw cynllunio atodol mabwysiedig Caerdydd. Mae'r rhain ar gael ar wefan y Cyngor. Gellir cael mwy o gyngor hefyd gan y tîm Creu Lleoedd, y gellir cysylltu â fe ar y cyfeiriad e-bost isod.

Defnyddir delweddau yn yr adroddiad hwn i ddangos ystod y cynlluniau a adolygwyd gan y gwasanaeth ar gamau amrywiol o'u cynnydd. Nid yw eu cynnwys yn dangos cefnogaeth i ddatblygiad gan Gyngor Caerdydd nac yn ceisio niweidio'r broses gwneud penderfyniadau cynllunio arferol.

Fersiwn: 1
26 Mehefin 2023

Cyswllt: dylunio@caerdydd.gov.uk